CYMRAEG

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Siarter Iaith: Fframwaith Cenedlaethol

## Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer gweithredu'r Siarter Iaith



## Cynnwys


**1. Cyflwyniad**
**2. Fframwaith i bwy?**
**3. Cefndir**
**4. Datblygiadau polisi**
**5. Ymbarél y Siarter Iaith**
**6. Gweledigaeth**
**7. Gwerthoedd a gweithredu**
**8. Gweithredu'r Siarter Iaith, cam wrth gam**
**9. Pwy sy'n gwneud beth?**
**10. Arfer dda**
**11. Cefnogaeth Ychwanegol**


## Atodiadau


1. Deilliannau ac Amcanion – y Rhaglen Gyfan


## Adnoddau pellach i ddilyn

- Canllawiau Rhaglen Siarter Iaith Cynradd
- Canllawiau Rhaglen Siarter Iaith Uwchradd
- Canllawiau Rhaglen Cymraeg Campus
- Canllawiau Rhaglen Cymraeg Bob Dydd
- Canllaw i ddilyswyr
- Cwestiynau Holiaduron

## 1. Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd rhaglen y Siarter Iaith fel adnodd allweddol ar gyfer cynyddu defnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg. Ers ehangu rhaglen y Siarter Iaith o fod yn weithredol yng Ngwynedd yn unig, i fod yn rhaglen genedlaethol yn 2016, mae'r byd o'n cwmpas wedi newid; mae twf technoleg a'r maes digidol yn parhau i effeithio ar arferion ieithyddol ein plant a phobl ifanc a sut maen nhw'n cymdeithasu. Yn ogystal, mae data Cyfrifiad 2021 am y Gymraeg bellach yn hysbys a datblygiadau sylweddol yn maes cynllunio ieithyddol ar y gweill gyda datblygiad y Bil Addysg Gymraeg. Credwn fod hyn oll, gan gynnwys cyflwyno Cwricwlwm i Gymru yn galw am ddiweddaru'r Siarter Iaith.

Dyma felly gyflwyno fframwaith diwygiedig newydd ar gyfer y Siarter Iaith. Gobeithiwn, trwy ddilyn y fframwaith hwn, y bydd rhaglen y Siarter Iaith yn parhau i fod yn arf pwysig i gynyddu defnydd cymdeithasol plant a phobl ifanc Cymru o'r Gymraeg, o ba gefndir ieithyddol bynnag maen nhw'n dod.

## 2. Fframwaith i bwy?

Anelir y ddogfen hon at bawb sy'n ymwneud â gweithredu Rhaglen y Siarter Iaith. Pwrpas y ddogfen yw i ddiweddaru dogfennau strategol y Siarter gan osod cyfeiriad a gweledigaeth cenedlaethol ar gyfer y rhaglen. Mae'r fframwaith yn addas ar gyfer Arweinwyr a Chydlynwyr Cenedlaethol, Penaethiaid ac athrawon Cynradd ac Uwchradd a phartneriaid allweddol eraill. Ceir yma felly yr holl wybodaeth gychwynnol sydd ei angen i weithredu'r Siarter Iaith. *Noder y bydd yr adnoddau atodol sy'n cynnwys canllawiau'r rhaglen yn dilyn.* Mae llais y dysgwr yn hynod bwysig i weithrediad y Fframwaith, felly bydd deunydd hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth penodol ar gyfer plant a phobl ifanc i ddilyn. Pwysleisiwn mai taith ysgol unigol ydy hon gyda phob ysgol yn datblygu ar gyflymder eu hunain.

## 3. Cefndir

Ym mis Gorffennaf 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth genedlaethol ar gyfer ein hiaith, *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg*. Fel mae teitl y strategaeth yn ei awgrymu, rydym am weld nifer y rhai sy'n gallu siarad Cymraeg yn codi i filiwn erbyn y flwyddyn 2050. Mae'r strategaeth hefyd yn nodi dymuniad i weld canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy na dim ond ychydig eiriau o'r Gymraeg, yn cynyddu o 10 y cant (yn 2013-15) i 20 y cant erbyn 2050.

Strategaeth genedlaethol yw *Cymraeg 2050*, ar gyfer pawb yng Nghymru, p'un a ydyn nhw'n siarad Cymraeg ai peidio. Er mai Llywodraeth Cymru a'i cyhoeddodd, rydym yn nodi bod y Gymraeg yn perthyn i ni i gyd yng Nghymru, felly hefyd y cyfrifoldeb am ei dyfodol.

Mae rhaglen y Siarter Iaith yn cyfrannu at *Cymraeg 2050* drwy anelu at ysbrydoli plant a phobl ifanc i ddefnyddio a mwynhau'r Gymraeg ym mhob agwedd ar eu bywydau. Mae'r Siarter Iaith yn rhan o gyfres o raglenni Llywodraeth Cymru sy'n anelu at gynyddu defnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Mae rhaglen y Siarter Iaith ar gyfer pawb; mae gan bob aelod o gymuned ysgol ran i'w chwarae - cyngor yr ysgol, dysgwyr, rhieni, llywodraethwyr, holl weithlu'r ysgol yn ogystal â'r gymuned ehangach, fel busnesau a thrigolion lleol. Gyda'n gilydd, gallwn gynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc.

## 4. Datblygiadau polisi

Cwricwlwm i Gymru
Mae rhaglen y Siarter Iaith yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru gydag egwyddorion y rhaglen yn cefnogi'r pedwar diben isod er mwyn creu:

1. dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau
2. cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
3. dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
4. unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Er hynny, ni ddylai ysgolion ddibynnu ar raglen y Siarter Iaith fel yr unig erfyn i *gyflwyno'r* Gymraeg yn eu hysgolion. Dylai rhaglen y Siarter Iaith gael ei defnyddio i ychwanegu at brofiadau addysgiadol ac i bontio rhwng elfennau'r cwricwlwm, profiadau allgyrsiol ac amseroedd chwarae anffurfiol. Pwysleisiwn nad atodiad mo'r siarter iaith ond yn hytrach rhan integredig o Gwricwlwm i Gymru.

Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg
Mae adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol greu a gweithredu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA).

Mae'n nodi y dylai Cynllun o'r fath gynnwys cynigion awdurdod lleol ynghylch sut y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau addysg er mwyn:
- Gwella'r broses o gynllunio'r modd y mae addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei darparu yn ei ardal; a
- Gwella safonau addysg cyfrwng Cymraeg a safonau addysg Cymraeg yn ei ardal.

Mae'r CSCA wedi cychwyn ar 1 Medi 2022 ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2032. Mae CSCA pob awdurdod lleol wedi cael eu llunio o gwmpas saith deilliant sy'n adlewyrchu taith addysg dysgwr ac yn cydweddu â meysydd polisi Cymraeg 2050 ac addysg yn ehangach, gan gynnwys Cwricwlwm i Gymru. Un o'r deilliannau hynny yw "Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun gwahanol yn yr ysgol."

Yn y deilliant hwn mae disgwyl i'r awdurdod lleol gynnwys gwybodaeth am sut y byddant yn gwella sgiliau Cymraeg personau sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg mewn unrhyw ysgol a gynhelir ganddo er mwyn gwella safonau addysg cyfrwng Cymraeg.

Bil Addysg Gymraeg

Ym mis Mawrth 2023, cyhoeddodd Lywodraeth Cymru Bapur Gwyn ar gynigion a fydd yn sail i Fil Addysg Gymraeg, ar y cyd â Phlaid Cymru trwy'r Cytundeb Cydweithio. Bydd y Bil yn cymryd camau i alluogi holl ddisgyblion Cymru i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus drwy'r system Addysg Statudol. Ymhlith y prif gynigion mae:

- Adlewyrchu'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg yn y gyfraith
- Creu un continwwm sgiliau Cymraeg i ddisgrifio lefelau sgiliau fel bod dysgwyr, athrawon, rhieni a chyflogwyr yn dod i ddealltwriaeth gyffredin o'r daith tuag at ddysgu Cymraeg
- Sefydlu system statudol o gategoreiddio ysgolion a gynhelir yn ôl cyfrwng iaith
- Dros amser, cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion a gynhelir nad ydynt eisoes yn ysgolion cyfrwng Cymraeg penodedig
- Gofyniad i Weinidogion Cymru greu Cynllun Cenedlaethol statudol ar gyfer caffael a dysgu'r Gymraeg, a'i adolygu bob tymor Seneddol
- Diwygio sut mae awdurdodau lleol yn cynllunio darpariaeth Gymraeg mewn ysgolion er mwyn cyrraedd targedau a osodir gan Weinidogion Cymru
- Gofynion ar awdurdodau lleol i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn rhagweithiol, gan gynnwys darpariaeth trochi hwyr; a
- Rhoi cymorth arbenigol i ysgolion o ran dysgu Cymraeg.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac i atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

Wedi'i gynnwys yn y Ddeddf mae Saith Nod Llesiant, pwrpas y nodau yma yw sicrhau bod pawb yn gweithio tuag at gyflawni'r un nodau. Un o'r nodau hynny yw gweithio tuag at Gymru sydd â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

## 5. Ymbarél y Siarter Iaith

Mae rhaglen y Siarter Iaith yn ffocysu ar hyrwyddo a chynyddu defnydd dysgwyr o'r Gymraeg oddi fewn i'w sefydliadau addysgol ( 3 – 18 oed) ac mewn cyd-destunau cymdeithasol. Defnyddiwn 'rhaglenni'r Siarter Iaith', neu 'y Siarter' wrth gyfeirio at y fframwaith cenedlaethol ac unrhyw weithgarwch cysylltiedig. Er mwyn annog cynnydd mae ysgolion yn gweithio tuag at wobrau cynyddrannol – efydd, arian ac aur. Gweler pennod 7 am ganllawiau pellach ar gyfer gwobrwyo yng nghyd-destun y fframwaith newydd.

O fewn strwythur y Siarter Iaith, mae dau lwybr:

<table>
<tr><th colspan="2">Siarter Iaith</th></tr>
<tr><td>Siarter Iaith<br><br>Cynradd, Uwchradd a Sefydliadau Addysgol Gydol Oes<br><br>Ysgolion Categori<br><br>• C2 – ysgol dwy iaith,<br>• T3 – ysgol sy'n trosi i C3,<br>• C3 – ysgol cyfrwng Cymraeg,<br>• 3P – ysgol benodedig Cyfrwng Cymraeg.</td><td>Siarter Iaith Cymraeg Campus (cynradd) a Chymraeg Bob Dydd (uwchradd)<br><br>Cynradd, Uwchradd a Sefydliadau Addysgol Gydol Oes<br><br>Ysgolion Categori<br><br>• C1 – ysgol cyfrwng Saesneg,<br>• T2 – ysgol sy'n trosi i C2,<br>• C2 – ysgol dwy iaith.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Disgwylir i sefydliadau addysgol unigol sydd ar daith o newid categorïau ystyried pa lwybr o'r Siarter sydd fwyaf addas iddynt ei dilyn yn unol â sefyllfa ieithyddol yr ysgol.<br><br>Yn yr un modd, anogir ysgolion a chanolfannau addysgol Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) i asesu pa lwybr o'r Siarter sydd fwyaf addas iddynt ei dilyn, yn ddibynnol ar sefyllfa ieithyddol yr ysgol ac anghenion y dysgwyr.<br><br>Darperir rhagor o wybodaeth a chanllawiau am gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar wefan Llywodraeth Cymru.</td></tr>
</table>

Yn fras, mae'r strwythur yr un fath ar draws y rhaglen gyfan. Bydd dysgwyr yn llenwi holiadur am eu defnydd o'r Gymraeg ac yn defnyddio'r wybodaeth i nodi meysydd i'w gwella; gosod eu hamcanion a llunio cynllun gweithredu ar gyfer

cymuned yr ysgol gyfan. Ar ddiwedd y cyfnod gweithredu, bydd y dysgwyr yn ailadrodd yr holiadur i weld a ydynt wedi gwneud cynnydd.

Nid yw'r holiadur yn fesur o berfformiad ar gyfer dyfarniadau nac yn ffordd o gymharu sefydliadau addysgol na rhanbarthau.

Dylai pob ysgol benderfynu ar ei blaenoriaethau, ei hamcanion a'i thargedau ei hun, ar sail amgylchiadau ac anghenion yr ysgol, a gwahanol gefndiroedd ieithyddol y dysgwyr. Mae'r fframwaith hwn felly'n darparu canllaw lefel uchel i weithredu rhaglen y Siarter.

## 6. Gweledigaeth

Bydd y rhaglen yn cyfrannu at greu dinasyddion dwyieithog y dyfodol, a fydd yn:

- siaradwyr Cymraeg annibynnol,
- defnyddio'r Gymraeg o'u gwirfodd eu hunain ac yn ei mwynhau,
- siarad Cymraeg â'i gilydd p'un a ydyn nhw'n dod o gartrefi Cymraeg ai peidio,
- meddu ar agwedd bositif tuag at yr iaith ac yn hyderus i ddefnyddio eu Cymraeg.

Bydd y rhaglen yn gweithio i sicrhau:

- bod gan arweinwyr ysgol; yn athrawon ac yn rhanddeiliaid eraill, gynllun datblygu clir, y wybodaeth a'r sgiliau i annog defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol, gartref ac yn gymdeithasol o fewn y gymuned.
- bod rhieni a gwarchodwyr yn gwneud cyfraniad gweithredol at ddefnydd Cymraeg eu plant, beth bynnag yw eu gallu ieithyddol.

## 7. Gwerthoedd a gweithredu

Er mwyn cyrraedd y weledigaeth, gofynnwn i ysgolion ddilyn y gwerthoedd isod:

**Gwerthoedd y Siarter Iaith:**

- Rydym am i bawb **fwynhau siarad Cymraeg**,
- Rydym am i bawb **fod yn falch** o'r Gymraeg a'r Siarter Iaith gan **berchnogi** holl elfennau'r rhaglen a'u cynlluniau ysgol,
- Rydym am i bawb **gydweithio** i hyrwyddo'r Gymraeg tra'n gweithredu'r Siarter Iaith,
- Rydym am i bawb **ddathlu** llwyddiant waeth pa mor fach; unigolion, ar lefel dosbarth, ysgol neu'n gymunedol.

**Elfennau allweddol y Siarter Iaith:**




- **Arweinyddiaeth:** O'r cynllunio i'r cyflawni, mae arweinyddiaeth yn hollbwysig ar gyfer cynyddu defnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg ac hefyd i lwyddiant y Siarter Iaith. Mae'r Siarter yn gweithio ar ei orau pan fod llywodraethwyr, y Cyngor Ysgol, yr uwch-dîm a chydlynydd ysgol a sirol / rhanbarthol yn ei pherchnogi.
- **Llais y dysgwyr:** Ers 2005, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i bob ysgol yng Nghymru fod â chyngor ysgol.[1] Dylid defnyddio fforymau fel y Cyngor Ysgol i drafod sefyllfa yr ysgol gyda'r Gymraeg, ei sefyllfa ieithyddol a thaith ysgolion wrth gyflawni'r Siarter a phan yn dadansoddi canlyniadau eu holiaduron ar-lein. Rydyn ni yn annog ysgolion i greu fforymau trafod penodol ar gyfer trafod y Gymraeg a'u taith gyda'r Siarter; mae sawl ysgol yn barod wedi sefydlu 'Criwiau Cymraeg'.
- **Cyfrifioldeb ysgol gyfan:** Mae cynyddu defnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg a'u balchder yn ein hiaith, diwylliant ein gwlad a'u Cymreictod yn gyfrifoldeb ar yr ysgol gyfan boed yn swyddogion yn y swyddfa, staff ar yr iard neu yn athrawon a disgyblion. Ni ddylai'r pwysau o gynyddu defnydd o'r Gymraeg ddisgyn ar ysgwyddau unigolyn nac ychwaith un adran benodol e.e. yr adran Gymraeg mewn ysgolion Uwchradd. Mae gan bawb rôl i'w chwarae yn annog a grymuso dysgwyr i ddefnyddio'r iaith, o'r

[1] legislation.gov.uk/cy/wsi/2005/3200/regulation/3/made/welsh

llywodraethwyr i weithlu atodol yr ysgol a rhieni. Rydym hefyd yn cydnabod rôl answyddogol yr ysgol wrth ddylanwadu ar y gymuned yn ehangach.

- **Gwerthuso**: Mae gwerthuso, mesur a dathlu llwyddiant yn rhywbeth y dylid ei ystyried ar hyd taith ysgol gyda rhaglen y Siarter. Mae'r holiaduron yn rhan o'r broses yma, ac yn arf defnyddiol ar gyfer datblygu cynlluniau gweithredu sy'n mynd i'r afael â'r canfyddiadau o fewn ysgolion. Dylid gwerthuso'n barhaus.
- **Llwyddiant:** Bydd llwyddiant yn edrych yn wahanol ym mhob sefydliad. Anodd byddai creu rhaglen sy'n diffinio un ffordd sengl o lwyddo gyda'r Siarter Iaith. Rydym yn cydnabod bod tirwedd ieithyddol Cymru yn amrywio'n fawr o ardal i ardal, o ysgol i ysgol, ac ymysg cylchoedd cymdeithasol gwahanol. Felly, cydnabyddwch a dathlwch eich llwyddiant – a hynny ar bob lefel.

## 8. Gweithredu'r Siarter Iaith, cam wrth gam:

### a) Holiadur ar-lein

Mae'r holiadur Siarter Iaith, sef cyfres o gwestiynau i ddysgwyr ynglŷn â'u defnydd iaith mewn sefyllfaoedd gwahanol, a'u hagweddau tuag at yr iaith, yn rhan bwysig o'r gwaith mewn nifer o ysgolion ar hyn o bryd. Defnyddir canfyddiadau'r holiadur fel un o seiliau cynlluniau gweithredu unigol ysgolion. Mae'r holiadur ar-lein ar gael ar Hwb i bob ysgol yng Nghymru ei defnyddio fel un o'r dulliau o fesur cynnydd o fewn y gwaith hwn. Ceir canllawiau i ddefnyddwyr ar Hwb ar sut i ddefnyddio'r holiaduron a sut i greu adroddiad o'r canlyniadau.

### b) Cynllun Gweithredu

Mae creu Cynllun Gweithredu ar gyfer rhaglen y Siarter Iaith yn rhan hanfodol o roi'r Siarter ar waith. Bydd ysgolion a phartneriaid sy'n ymwneud â'r Siarter Iaith yn barod yn defnyddio Cynlluniau Gweithredu fel ffordd o gynllunio at gynyddu defnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg. **Pwysleisir nad yw cyhoeddi'r fframwaith hwn yn golygu creu cynlluniau o'r newydd os oes gan ysgol gynllun yn barod.**

Anogir ysgolion i ddatblygu cynlluniau gweithredu heriol, ond cyraeddadwy, gyda chefnogaeth gan eu cydlynwyr lleol. Anogwn ysgolion i wreiddio cynlluniau gweithredu'r Siarter yn rhan o gynlluniau datblygu cyffredinol yr ysgol, yn ogystal â chefnogi ysgolion i gynyddu'r Gymraeg o fewn eu categori iaith benodol. Bydd pob ysgol yn dilyn ei llwybr ei hun er mwyn cyflawni'r deilliannau a chwrdd â'r amcanion, yn unol â sefyllfa bresennol yr ysgol. Byddwn yn rhoi strwythur monitro mewn lle er mwyn dilysu a chynorthwyo ysgolion i ddatblygu, rhannu arfer dda ac adeiladu ar gynnydd yn barhaus.

Ni fydd modd cyrraedd nod cyffredinol y rhaglen, sef i gyfrannu at ddyblu'r nifer ohonom sy'n defnyddio'r Gymraeg bob dydd, dros nos. Mae'r rhaglen yn rhan o'r darlun ehangach o newid ymddygiad dros gyfnod hir o amser, ac mae taith bob ysgol yn wahanol ac yn unigryw.

Bydd pob ysgol yn llunio eu cynlluniau datblygu gwaith wrth weithredu'r Siarter fydd yn cynnwys holl gymuned yr ysgol – y dysgwyr, yr holl weithlu, rhieni/gofalwyr, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach / partneriaid.

Disgwylir i ysgolion gydweithio ag ysgolion eraill o fewn eu clwstwr, yn ogystal ag ysgolion uwchradd perthnasol er mwyn sicrhau dilyniant a llwybr di-dor o gefnogaeth i ddysgwyr.

### c) Dilysu

Egwyddorion y broses ddilysu yw:

- Sicrhau cysondeb cenedlaethol
- Dathlu a chydnabod llwyddiannau pob ysgol
- Annog cynnydd yn nefnydd o'r Gymraeg
- Sicrhau bod lefel y wobr yn briodol ac addas i bob ysgol

Disgwylir i'r broses o ddilysu ddod i farn a yw ysgol wedi cyflawni'r gofynion ar gyfer gwobrau'r Siarter ai peidio. Pan fydd angen cymorth pellach ar ysgol, bydd y dilysydd yn rhoi arweiniad, yn rhannu arferion da ac yn chyflwyno argymhellion i'r ysgol.

Yn sgil y broses o ddilysu, disgwylir i'r dilysydd lunio adroddiad yn manylu ar weithrediad y Siarter Iaith yn unol â hunan-arfarniad yr ysgol, effaith gweithredu'r Siarter ar ddefnydd cymdeithasol dysgwyr o'r Gymraeg, llafaredd, arferion da, ynghyd ag argymhellion ar gyfer meysydd i'w datblygu.

Bydd rhagor o adnoddau a chanllawiau yn cael eu rhannu yn fuan wedi cyhoeddiad y Fframwaith Cenedlaethol. Bydd rhain yn cynnwys gwybodaeth bellach o ran gwobrau rhaglen y Siarter Iaith; yr ôl-aur a'r broses ddilysu. Serch hynny, nodir isod y broses lefel uchel y dylid ei dilyn yn y cyd destun hwn. Disgwylir i ysgolion a chydlynwyr ym mhob ysgol ar draws y wlad gadw at y drefn yma er mwyn sicrhau cysondeb yn y broses a bod pawb, yn Genedlaethol, yn gweithredu yn yr un modd.

**Proses Dilysu:**

- **Cam 1:** Ysgol i hunan arfarnu
- **Cam 2:** Cydlynydd lleol i asesu hunan arfarniad yr ysgol
- **Cam 3:** Os yn cymeradwyo, bydd y cydlynydd lleol yn cysylltu â Swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn prosesu'r wobr ac i anfon tystysgrif ar ran y Gweinidog at yr ysgol.

**Proses Ôl-aur**

Os yw ysgol wedi cyrraedd y wobr aur, bydd y statws yn ddilys am gyfnod o dair blynedd hyd nes y bydd ail arfarniad yn cymryd lle. Disgwylir i'r broses ganlynol gael ei dilyn yng nghyd destun yr ôl-aur:

1. Ysgol i hunan arfarnu yn flynyddol
2. Ymhen tair blynedd o dderbyn yr aur, bydd y cydlynydd lleol yn trefnu ymweliad dilysu er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn dal yn deilwng o'r aur. Os yw'r ysgol yn parhau yn ysgol aur, bydd y statws yn gyfredol am

dair mlynedd arall a chaiff y dilysu ei ail gynnal bryd hynny. Pe na bai ysgol yn parhau yn ysgol aur, pennir targedau gan y cydlynydd lleol gyda nodyn i ail ymweld â'r ysgol ymhen blwyddyn. Pe na bai'r ysgol yn parhau yn ysgol aur wedi'r cyfnod hwn, yna symudir i fod yn ysgol arian.

3. I bob ysgol sydd wedi cynnal y wobr ôl aur am y cyfnod o dair blynedd, trefnir seremoni wobrwyo rithiol gan Swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn dathlu llwyddiannau'r ysgolion.

## 9. Pwy sy'n gwneud beth?

Mae gan pob un ohonom  gyfraniad pwysig i'w wneud, pa rôl bynnag y chwaraewn ar daith iaith Gymraeg dysgwr. Er mai athrawon, gyda chymorth cydlynwyr lleol, sy'n gyfrifol am gyflwyno'r Siarter i ddysgwyr a'u hysbrydoli i fod eisiau siarad Cymraeg, rydym am i'n pobl ifanc fwynhau defnyddio eu Cymraeg ym mhob agwedd o'u bywydau – wrth gymdeithasu, siopa, neu wrth gymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgareddau eraill.

Rydym am i rieni, gwarchodwyr, sefydliadau cymunedol, busnesau lleol a chymdogion ymuno drwy roi cyfleoedd i'r plant ddefnyddio eu Cymraeg. Gallai hyn fod gartref drwy ddarllen llyfrau a chylchgronau Cymraeg, defnyddio apiau Cymraeg, sgwrsio â ffrindiau wrth chwarae gemau ar-lein, gwylio teledu Cymraeg neu wrando ar radio neu gerddoriaeth Gymraeg.

Wrth ddatblygu cynlluniau ar gyfer y fframwaith cenedlaethol, rhoddir hyblygrwydd i ysgolion deilwra gweithrediad rhaglen y Siarter Iaith mewn ffordd sy'n addas i'w hanghenion a'u sefyllfaoedd unigol.

| Cyfranwyr | Cyfrifoldebau Allweddol |
|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | • Datblygu'r weledigaeth gyffredinol ar gyfer rhaglen y Siarter Iaith a rhoi arweiniad ar lefel genedlaethol.<br>• Darparu cyllid ar gyfer y rhaglen.<br>• Sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau'r rhaglen yn seiliedig ar ymchwil a thystiolaeth gyfoes<br>• Rheoli brand cyffredinol a chodi statws rhaglen y Siarter Iaith.<br>• Datblygu adnoddau a thempledi sy'n briodol i oedran y dysgwyr ac sydd ar gael ar Hwb<br>• Sicrhau cysondeb cenedlaethol; gan gynnwys safoni ac awdurdodi adnoddau cysylltiedig.<br>• Darparu canllawiau ar gyfer rhaglen y Siarter.<br>• Gweithio gyda sefydliadau i ddarparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol.<br>• Rhoi cymorth i ysgolion a chydlynwyr gyda'r holiaduron ar Hwb.<br>• Sicrhau bod dull seicoleg cymdeithasol yn cael rhan gynyddol bwysig yn ein gwaith o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. |

| | |
|---|---|
| | • Trefnu i anfon tystysgrifau efydd/arian/aur at ysgolion yn dilyn cadarnhad gan y cydlynwyr lleol<br>• Trefnu seremoni wobrwyo rithiol blynyddol i ysgolion ôl-aur sydd wedi parhau i gadw'r wobr am gyfnod o dair blynedd |
| **Partneriaid Cyflawni:**<br><br>Cydlynwyr lleol y Siarter Iaith mewn Consortia a/neu Awdurdodau Lleol, Sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc | • Sicrhau bod pawb yn cael profiad positif o'r Gymraeg<br>• Codi ymwybyddiaeth a sicrhau proffil uchel i raglen y Siarter Iaith o fewn ysgolion ac awdurdodau lleol.<br>• Cefnogi ysgolion i weithredu egwyddorion a monitro effaith rhaglen y Siarter Iaith.<br>• Ymweliadau cefnogi â phob ysgol unwaith bob tymor neu yn ôl y galw.<br>• Annog cysylltiadau rhwng ysgolion yn lleol a rhanbarthol er mwyn hyrwyddo cydweithio effeithiol a strategol.<br>• Darparu hyfforddiant a/neu rhannu gwybodaeth ar gynnwys y Siarter Iaith i holl weithlu ysgolion, rhieni a llywodraethwyr yn ôl y galw.<br>• Hwyluso'r broses o rannu arferion da rhwng ysgolion o fewn y rhanbarth ac yn genedlaethol.<br>• Mynychu grŵp llywio'r rhaglen genedlaethol er mwyn adrodd ar ddatblygiadau a rhannu arferion da gydag ardaloedd eraill.<br>• Adrodd ar gynnydd i Lywodraeth Cymru ddwywaith y flwyddyn.<br>• Trefnu'r broses dilysu/achredu ysgolion o fewn y rhanbarth.<br>• Casglu astudiaethau achos o'r rhanbarth a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru fel rhan o ffurflenni monitro cynnydd.<br>• Pan yn bosib - partneriaid i greu cyfleoedd chwarae fel cynlluniau haf.<br>• Partneriaid i greu neu hyrwyddo cyfleoedd anffurfiol o bontio'r gymuned a'r ysgol.<br>• Cydlynwyr lleol i roi gwybod i Llywodraeth Cymru, yn flynyddol, pa ysgolion sydd wedi derbyn gwobrau. |
| **Cymuned yr Ysgol Gyfan**<br><br>Criw Cymraeg, Cyngor Ysgol, Dysgwyr, Gweithlu, Rhieni, | • Sicrhau bod pawb yn cael profiad positif o'r Gymraeg<br>• Llenwi holiaduron Siarter Iaith yn flynyddol i ganfod tystiolaeth o ddefnydd iaith eu dysgwyr er mwyn llunio rhaglen weithredu ysgol.<br>• Fforymau ysgol megis Y Criw Cymraeg, i ddatblygu amcanion a chynllun gweithredu'r ysgol dan arweiniad y cydlynydd neu un o athrawon yr ysgol. |

| | |
|---|---|
| Llywodraethwyr, Cymuned ehangach e.e. busnesau lleol a siaradwyr Cymraeg lleol | • Sicrhau bod rhaglen y Siarter Iaith yn rhan ganolog o gynllun datblygu'r ysgol.<br>• Holl gymuned yr ysgol i annog, perchnogi a chefnogi ei gilydd i gymryd cyfrifoldeb am y cynllun gweithredu a'i roi ar waith.<br>• Casglu a chyflwyno tystiolaeth o gynnydd ar gyfer dilysu.<br>• Cynyddu cyfathrebu gyda rhieni a'r gymuned yn ehangach.<br>• Cydweithio ar lefel clwstwr a chlwstwr Uwchradd<br>• Cydweithio gyda'r Partneriaid Cyflawni / cydlynwyr lleol/rhanbarthol<br>• Mynychu rhwydweithiau sirol/rhanbarthol/cenedlaethol. |

## 10. Arfer dda

**Sut olwg sydd ar ysgolion Siarter Iaith effeithiol?**

- Mae pawb yn cael profiad positif o'r Gymraeg
- Mae'r rhaglen yn rhan allweddol o gynllun datblygu'r sefydliad addysgol.
- Mae cymuned yr ysgol gyfan yn deall nodau rhaglen y Siarter Iaith, yn cymryd cyfrifoldeb am weithredu'r cynllun gweithredu, ac yn cefnogi ei gilydd i ddysgu a defnyddio'r iaith.
- Mae arweinyddiaeth gadarn mewn lle i weithredu'r rhaglen.
- Mae gan gymuned yr ysgol gyfan gyfle i drafod yr iaith a'i pherthnasedd i fywyd bob dydd.
- Anogir y defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth a'r ysgol drwy weithgareddau a phrofiadau allgyrsiol. Gallai grwpiau cymunedol a sefydliadau eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc fod yn rhan o'r rhain megis yr Urdd, Clybiau Ffermwyr Ifanc, gweithwyr ieuenctid, y Selar a'r Eisteddfodau, dim ond i enwi rhai.
- Mae gweithlu'r ysgol yn datblygu eu sgiliau Cymraeg ac yn defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd a gyda'r dysgwyr.
- Anogir rhieni/gofalwyr i wneud cyfraniad gweithredol at ddefnydd Cymraeg eu plant, beth bynnag fo gallu iaith y rhieni hynny.
- Cynnull grŵp o ddysgwyr i arwain ac i gymryd perchnogaeth ar y Siarter Iaith e.e. Criw Cymraeg, Dreigiau.
- Mae'r Siarter Iaith yn cynnig llwybr clir drwy daith addysgol dysgwr, gan gynnwys dilyniant o'r cynradd i'r uwchradd gan annog dysgwyr i barhau i weithredu'r cynllun. Caiff ei ddefnyddio hefyd ar draws ysgolion gydol oes.

## 11. Cefnogaeth ychwanegol

Bydd cydlynwyr lleol ac / neu swyddogion awdurdodau lleol yn gyfrifol am ddarparu cyngor a chefnogaeth rheolaidd i ysgolion wrth iddynt weithredu'r fframwaith. Bydd swyddogion y consortia rhanbarthol ac / neu awdurdodau lleol hefyd yn gyfrifol am hyrwyddo a monitro cynnydd ysgolion fel rhan o'r broses cefnogi.

Mae croeso i swyddogion ac arweinwyr y Siarter Iaith gysylltu ag Is-adran Cymraeg 2050, Llywodraeth Cymru am unrhyw gyngor pellach: Cymraeg2050@llyw.cymru

## Atodiadau

### Deilliannau ac amcanion – Y Rhaglen Gyfan

Prif ddeilliant yr holl raglen: Mae pawb yn cael profiad positif o'r Gymraeg. Mae hyn yn rhedeg drwy bob agwedd ac elfen o'r Siarter Iaith.

1. **Arweinyddiaeth** strategol yn cael ei dangos ar lefel ysgol gyfan.
   - Arweiniad yn cael ei roi i ddysgwyr ynghylch cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith tu hwnt i'r ysgol.
   - Uwch dîm arwain yn dangos ymrwymiad clir i ddatblygu'r Gymraeg a Chymreictod ar lefel ysgol gyfan.
   - Llywodraethwyr yn sicrhau bod y Siarter Iaith yn ffocws ganolog o fewn cynlluniau'r ysgol ac yn cefnogi'r gweithredu.

2. **Dysgwyr** yn cymryd perchnogaeth o'r Gymraeg ac yn deall ei pherthnasedd i fywyd bob dydd.
   - Holl ddysgwyr yr ysgol yn deall pwrpas a phwysigrwydd y Siarter Iaith a'u rôl i gefnogi'r gweithredu.
   - Dysgwyr yn annog a chefnogi ei gilydd i gymryd cyfrifoldeb dros yr iaith.
   - Cyfarwyddyd yn cael ei roi i'r cyngor ysgol neu'r criw sy'n arwain rhaglen y Siarter Iaith ar sut i drin a thrafod yr iaith a rhoi arweiniad i'w cyd-ddysgwyr.
   - Dysgwyr a fforymau ysgol megis Criw Cymraeg/llysgenhadon iaith Gymraeg yn cefnogi eu cyd-ddysgwyr i ddefnyddio mwy o Gymraeg y tu allan i'r dosbarth mewn modd positif.
   - Anogaeth a chefnogaeth i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg drwy dechnoleg a chyfryngau cymdeithasol.
   - Dysgwyr yn cael cyfle i drafod yr iaith a'i pherthnasedd i fywyd bob dydd.
   - Dathlu Cymreictod a meithrin balchder y dysgwyr.

3. **Ysgolion** yn annog defnydd dysgwyr o'r iaith y tu allan i'r dosbarth ac yn cynnig profiadau Cymraeg a Chymreig ar draws y **cwricwlwm.**
   - Dysgwyr yn defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd amrywiol yn yr ysgol.
   - Y gweithlu yn sicrhau defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm (ysgolion dwyieithog a chyfrwng Saesneg).
   - Gweithgareddau a phrofiadau cyfoethogi yn cael eu cynnig er mwyn datblygu defnydd a mwynhad dysgwyr o'r Gymraeg.

- Cynllun datblygu'r ysgol yn cynnwys ymrwymiad clir i ddatblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu.

4. **Gweithlu'r ysgol** yn datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg ac yn defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd a gyda'r dysgwyr.
    - Holl weithlu'r ysgol yn deall nod ac amcanion y Siarter Iaith a'u rôl i gefnogi'r gweithredu.
    - Gweithlu'r ysgol yn gallu trin a thrafod yr iaith gyda dysgwyr.
    - Gweithlu'r ysgol yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, yn unol â'r safonau proffesiynol.
    - Dysgwyr yn cynorthwyo gweithlu ehangach yr ysgol i ddatblygu a defnyddio eu sgiliau Cymraeg.
    - Gweithlu'r ysgol yn annog defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth.

5. Gweithio mewn partneriaeth â **chymuned ehangach yr ysgol** i gefnogi defnydd dysgwyr o'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol.
    - Rhieni/gofalwyr a chymuned ehangach yr ysgol yn deall pwrpas a phwysigrwydd y Siarter Iaith a'u rôl i gefnogi'r gweithredu.
    - Arweiniad i rieni/gofalwyr er mwyn eu hannog i gefnogi defnydd iaith eu plant y tu allan i'r ysgol.
    - Holl gymuned yr ysgol a phartneriaid cymunedol yn cynllunio a chydweithio i gynnig gweithgareddau a chyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r ysgol.

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG48543, ISBN digidol 978-1-83504-735-4
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg